# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod o Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **3 TACHWEDD 2020** |
| **Aelod Cabinet:** | **Cynghorydd Gareth Wyn Griffith** |
| **Swyddog cyswllt:** | **Dafydd Wyn Williams – Pennaeth Adran Amgylchedd** |
| **Rhif Cyswllt:** | **32371** |
| **Pwnc:** | **Penodi 3 Swyddog Ymgysylltu Cymunedol i gynorthwyo gyda gwaith sydd yn deillio o'r pan demig** |

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Fod y Cabinet yn cytuno i'r Cyngor tanysgrifennu'r gost o gyflogi 3 Swyddog Ymgysylltu Cymunedol ar gyfer yr Adran Amgylchedd am gyfnod dros dro, hyd at 31 Mawrth 2022 ac yn cytuno i'r Pennaeth Adran Amgylchedd weithredu ar recriwtio cyn gynted ag y bo modd.

---

**RHESYMAU DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

Er mwyn gallu recriwtio cyn gynted ag y bo modd i gynorthwyo gyda'r gwaith o ymateb i'r pan demig, drwy apwyntio 3 Swyddog Ymgysylltu Cymunedol i gynghori ac ymgysylltu gyda chymunedau a busnesau yng Ngwynedd.

Fel rhan o'r uchod, i sefydlu cynllun hyfforddiant ar gyfer y 3 Swyddog Ymgysylltu Cymunedol, gall gyfrannu tuag at roi gwydnwch i Wasanaethau Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor i'r dyfodol.

---

**CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

**1. CEFNDIR**

1.1 Yn dilyn y gweithdy a gynhaliwyd ar 10 Medi 2020 gydag Aelodau'r Cabinet, adroddwyd ar y materion oedd wedi codi yn ystod y pan demig i gyfarfod o'r Cabinet ar y 15 Medi 2020. Roedd un o'r materion oedd yn codi ac oedd angen sylw gan yr Adran Amgylchedd ac yna'r Cabinet, yn cyfeirio at y maes Iechyd Cyhoeddus lle nodwyd:

***"Mae'r cyfnod clo a'r cyfnod a ddilynodd wedi amlygu dyhead mawr gan ein trigolion i sicrhau bod materion iechyd cyhoeddus yn cael sylw gennym. Mae'r galw wedi bod yn sylweddol uwch na'r adnodd sydd gennym i'w ddiwallu.***

***O edrych ar y materion yma drwy lygaid ein trigolion nid yw'r dyhead yn un afresymol. Yn anffodus mae degawd o gyni ariannol wedi golygu nad yw'r gwydnwch adnoddau gennym bellach. Bydd angen ystyried sut i gau'r cylch."***

1.2 Mae'r adroddiad yma yn cynnwys ymateb dros dro yr Adran i'r uchod ac yn edrych ar ddarparu ymateb brys byr dymor, fydd yn cynorthwyo gwaith y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd drwy fod yn gyswllt uniongyrchol gyda busnesau a chymunedau. Ond hefyd, rydym yn edrych ar hyn fel rhan o gynllun hyfforddiant dros amser fydd yn gosod seiliau ar gyfer ceisio cyfrannu tuag gwydnwch hir dymor i'r Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd.

**CYLLIDO A MATERION RHANBARTHOL**

1.3 Nid yw sefyllfa Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd fel y nodir uchod, yn unigryw i Wynedd ac yn ddiweddar mae'r 6 Cyngor yn y rhanbarth wedi cyflwyno cais am arian grant o Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru. Mae'r cais yn canolbwyntio'n bennaf ar geisio cael datrysiad brys drwy gael cyllid i gyflogi 3 (FTE) o Swyddogion Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd (Cofid 19) yr un i'r 6 Cyngor. Nodir mai Swyddogion Ymgysylltu Cymunedol fuasai rhain ar gyfer Gwynedd ac eglurir mwy am eu rôl yn 1.11 i 1.15 yr adroddiad.

1.4 Cyflwynwyd y cais gan Gyngor Conwy ar ran awdurdodau'r rhanbarth ac erbyn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo grant o £426,000 ar gyfer yr awdurdodau. Disgwylir i'r grant gael ei rannu'n gyfartal a fuasai'n golygu grant o £71,000 i Wynedd, gyda'r gronfa ar gael hyd at ddiwedd Mawrth 2021, ond deallir y bydd hyn hefyd yn cael ei ymestyn ar gyfer y flwyddyn ariannol olynol (hyn i'w gadarnhau).

1.5 Nid yw'r arian grant o'r cais cyntaf wedi dod drwodd eto (er ei fod ar y ffordd) ac nid oes cadarnhad ffurfiol o beth fydd yn digwydd gyda grant ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Felly, gofynnir i'r Cabinet gytuno i'r Cyngor tanysgrifennu'r gost o gyflogi'r 3 Swyddog ar gyflog GS4, am gyfnod yn cychwyn 1 Rhagfyr 2020 hyd at diwedd Mawrth 2022 sydd yn gyfanswm cost o £113,220 (gydag argostau)

**GWASANAETHAU GWARCHOD Y CYHOEDD Y CYNGOR**

1.6 Cyn y pan demig roedd 3 Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn yr Adran sef:

- Gwasanaeth Rheoli Llygredd a Thrwyddedu
- Gwasanaeth Safonau Masnach ac Iechyd Anifeiliaid / Bwyd Anifeiliaid
- Gwasanaeth Bwyd ac Iechyd a Diogelwch (yn cynnwys afiechydon heintus)

1.7 Yn sgil y pan demig mae dyletswyddau Gwarchod y Cyhoedd yn ymwneud ac afiechydon heintus yn amlwg wedi dod un o brif flaenoriaethau'r Cyngor ac felly mae Gwasanaethau newydd wedi eu creu i gynnal y gwaith perthnasol sef:

- Gwasanaethau Profi , Olrhain a Diogelu - Cofid

1.8 Yr hyn sydd wedi dod yn fwy amlwg yn sgil y pan demig yw pa mor bwysig yw ròl y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd o ran gwarchod iechyd ein cymunedau, ond hefyd o ran cynghori a chefnogi busnesau'r Sir a'r disgwyliad ein bod yn defnyddio ein pwerau gorfodaeth yn sgil honiadau o dorri'r rheoliadau coronafeirws.

1.9 Mae'r mwyafrif o'r dyletswyddau o ran gorfodi rheoliadau newydd coronafeirws wedi bod yn cael eu gweithredu gan swyddogion Gwarchod y Cyhoedd, ond mae gofyn wedi dod am orfodaeth fwy llym ond ar yr un pryd mae yna ofyn am bresenoldeb gweladwy yn ein trefi.

1.10 Wrth i'r Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd fynd i'r afael gydag archwilio cwynion, cynghori a gorfodi lle bo cyfiawnhad gwneud hynny, mae'n hynod anodd darparu presenoldeb gweladwy a rheolaidd allan yn ein cymunedau i ymgysylltu gyda chymunedau a busnesau.

**SWYDDOGION YMGYSYLLTU CYMUNEDOL**

1.11 Pwrpas y 3 Swyddog Ymgysylltu Cymunedol yn ystod y byr dymor, yw bod yn bresenoldeb gweladwy yn ein cymunedau a'n trefi, sydd yn cynghori a chynorthwyo busnesau a thrigolion ar faterion Cofid, yn ogystal ac adrodd yn ôl ar faterion gall fod yn codi ar y pryd. Y bwriad yw eu bod yn dod yn wynebau cyfarwydd yn ein cymunedau ac yn gyswllt uniongyrchol rhwng y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd (ac Adrannau eraill y Cyngor lle'n ymarferol) a thrigolion a busnesau Gwynedd. Gall hyn wedyn fod yn cynorthwyo'r Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd i fod yn canolbwyntio mwy ar faterion sydd yn fwy cymhleth a chynhennus eu natur.

1.12 Bydd y Swyddogion Ymgysylltu Cymunedol yn rhan o'r rhwydwaith bresennol o swyddogion y Cyngor sydd yn gweithio gyda chymunedau megis Swyddogion Adfywio ac ati, yn ogystal â chydweithio'n agos gyda phartneriaid fel yr heddlu. Byddant hefyd wrth gwrs yn gyswllt pwysig gyda Chynghorau Tref a Chymuned yn ogystal ac Aelodau Lleol.

1.13 Y bwriad yw defnyddio'r cyfnod dros dro fel cyfle i fuddsoddi yn y Swyddogion yma yn ystod y byr dymor, ond gyda llygad ar yr hir dymor. Felly, yn ogystal â chyfnod hyfforddi dechreuol (fydd yn cael ei gynnal gan y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd) er mwyn paratoi'r unigolion ar gyfer mynd allan i'r trefi a'r cymunedau, bydd rhaglen o hyfforddiant fwy cynhwysfawr yn cael ei lunio ar gyfer y cyfnod cyflawn gyda hyn yn cynnwys:

- Hyfforddiant a phrofiadau o weithio mewn meysydd gwaith amrywiol ar draws y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd.
- Clustnodi swyddogion o'r Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd i fentora'r Swyddogion Ymgysylltu Cymunedol.
- Yr uchod i gynnwys cysgodi swyddogion Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn eu gwaith dydd i ddydd.

1.14 Bydd penodi'r swyddi dros dro felly nid yn unig yn cyfrannu tuag y gwaith yn ystod y pan demig, ond hefyd yn gyfle i geisio datblygu gyrfaoedd i'r unigolion mewn meysydd Gwarchod y Cyhoedd, gall fod yn cynorthwyo'r Cyngor i greu Gwasanaethau mwy gwydn ar gyfer yr hir dymor. Gall hyn fod yn gyfle i amrywiaeth o unigolion yn y Cyngor fel secondiad yn byr dymor. Mae profiadau diweddar wedi dangos ei bod yn anodd ceisio recriwtio swyddogion ar gyfer y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd, yn sgil yr angen am gymwysterau, hyfforddiant a phrofiadau perthnasol a gall y rhaglen hyfforddiant fod yn ddatrysiad ar gyfer hyn wrth recriwtio ar gyfer yr hir dymor.

1.15 Buasai'r 3 Swydd yn eistedd o dan y Gwasanaethau Profi, Olrhain a Diogelu- Cofid, gyda swyddogion o'r Gwasanaeth yma yn ogystal â'r 3 Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn cael eu clustnodi ar gyfer mentora'r swyddogion newydd. Er yn eistedd o dan y Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu - Cofid, sydd wrth gwrs, fel y 3 swydd newydd, wedi ei greu yn benodol i ymateb i Cofid, bydd y 3 swydd yn naturiol yn rhan annatod o'r Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd i gyd. Disgwylir y bydd angen cyfnod rhesymol o hyfforddiant dechreuol a chyfarwyddo gyda threfniadau Cyngor, cyn i'r swyddogion newydd fod mewn sefyllfa i fod yn ymgymryd â'u dyletswyddau'n llawn.

**2. UNRHYW YMGYNGHORIAD A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

2.1 Trafodaethau gyda'r Prif Weithredwr a gyda'r Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd.

**3. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

3.1 Llunio Rhaglen Hyfforddiant dechreuol ac un mwy cynhwysfawr ar gyfer yr holl gyfnod a chlustnodi swyddogion ar gyfer mentora.

3.2 Hysbysebu ar gyfer y 3 Swydd gyda'r bwriad o apwyntio fel bod y swyddogion yn cychwyn o'r 1 Rhagfyr 2020.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Yn yr adroddiad Adolygiad o Gyllideb Refeniw 2020/21 cyflwynwyd i'r Cabinet 13 Hydref, nodais fod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cronfa caledi o hyd at £264 miliwn tuag at ddigolledu costau uwch a cholledion incwm awdurdodau lleol yn sgil yr argyfwng Covid-19. Mae llythyr diweddar gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn cydnabod cost gorfodi cyfyngiadau Covid-19, ac yn cytuno gall awdurdodau lleol hawlio (hyd at y lefel eu cynnig) o'r Gronfa Caledi Awdurdodau Lleol i gynyddu eu capasiti gorfodi. Mae cyfanswm o hyd at £2.5m wedi'i glustnodi yn y Gronfa Caledi Cymru gyfan i'r diben hyn yn 2020/21, a £426,000 ohono ar gyfer 6 awdurdod y gogledd. Gellid disgwyl bydd oddeutu £71,000 i Wynedd, ond mae hynny i'w gadarnhau.

Er mwyn i'r Adran Amgylchedd symud ymlaen a gallu recriwtio staff o ansawdd addas, os yw'n flaenoriaeth, medr y Cabinet danysgrifennu'r gost o gyflogi 3 Swyddog Ymgysylltu Cymunedol am gyfnod dros dro hyd at 31 Mawrth 2022. Byddwn yn hawlio'r gwariant perthnasol o gronfa caledi Covid-19 Llywodraeth Cymru, lle'n briodol, ond hyd nes cawn gadarnhad faint o grant gellid hawlio, am y tro bydd angen i'r Cabinet danysgrifennu'r gost llawn £113,220 o falansau'r Cyngor. Yn dechnegol, byddai hynny yn rhagfarnu 'bid' am gyllideb un tro erbyn 2021/22, pe bai'r cronfa caledi'r Llywodraeth ddim yn cyfarch yr holl gost. Nid yw'n arferol i'r Cabinet ragfarnu 'bid', ond rwy'n cefnogi'r bwriad yn amgylchiadau unigryw yr argyfwng Covid-19, ac oherwydd trafferthion ymarferol recriwtio am gytundebau byr iawn.